# Pa benderfyniad alla i apelio?

Mae'r Weithdrefn Apeliadau yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n dymuno apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan Fwrdd Arholi yn yr achosion canlynol:

- Ymgeiswyr sy'n cael eu rhwystro rhag parhau â'u hastudiaethau ar ganol lefel astudio neu ran o raglen.
- Ymgeiswyr sy'n methu cymhwyso i symud ymlaen i gam nesaf eu hastudiaethau.
- Pan allai goblygiadau'r penderfyniad a wnaed gan y Bwrdd Arholi gael effaith sylweddol ar ganlyniadau cyffredinol y myfyriwr (e.e. capio marciau).
- Ymgeiswyr sydd wedi cwblhau eu rhaglen ond sy'n dymuno apelio yn erbyn y canlyniad, neu ymgeiswyr sy'n anfodlon bod y Brifysgol wedi dyfarnu cymhwyster ymadael iddynt.

# Sut mae apelio?

Rydym yn argymell yn gryf eich bod yn cysylltu â Chanolfan Cyngor Undeb y Myfyrwyr am gyngor cyfrinachol am ddim cyn cyflwyno'ch apêl. I drefnu apwyntiad i weld rhywun yn Undeb y Myfyrwyr gallwch chi gysylltu â'r Ganolfan Gyngor drwy borth newydd i fyfyrwyr http://hello.swansea-union.co.uk/ lle gallwch godi tocyn a dewis y categori - Cyngor a Chymorth o'r gwymplen.

Er mwyn apelio yn erbyn penderfyniad gan y Bwrdd Arholi, dylech gwblhau a chyflwyno i'r Gwasanaethau Addysg y Ffurflen Cais am Apêl unwaith i chi gael eich hysbysu o benderfyniad y Bwrdd Arholi (gallwch gyflwyno'r ffurflen hon drwy e-bostio: studentcases@swansea.ac.uk).

Defnyddiwch y ffurflen ar-lein a'i chyflwyno ynghyd â'r holl dystiolaeth ategol drwy e-bost. Gellir dod o hyd i'r Ffurflen Cais am Apêl (AR1RD-2-B1-Appeal-form-May2024) drwy ddilyn y ddolen sydd ar y dudalen Apeliadau Academaidd.

Nid oes angen i chi am gyflwyno apêl. Serch hynny, mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn bodloni un neu ragor o'r rhesymau dilys dros apelio, sydd a restrir yn Adran 2.1 o'r Weithdrefn Apeliadau, sydd ar gael ar-lein yn: Apeliadau Academaidd - Prifysgol Abertawe .

Mae'n bwysig eich bod yn cyflwyno'r canlynol yn eich Ffurflen Apêl, neu yn eu hatodi i'r ffurflen:

1. Manylion llawn am y rheswm (rhesymau) dros yr apêl rydych yn dibynnu arno/arnynt; a
2. Dyddiadau'r holl asesiadau dan sylw, a manylion amdanynt, a sut y cafodd y rhain eu heffeithio; a
3. Tystiolaeth ategol berthnasol. **Sylwch nad yw apeliadau sy'n seiliedig ar reswm nad oes tystiolaeth ar ei gyfer yn debygol o fod yn llwyddiannus.**

# A oes terfyn amser ar gyfer apelio?

Ni ellir gwneud ceisiadau am Apêl tan *ar ôl* i chi dderbyn hysbysiad am benderfyniad y Bwrdd Arholi (h.y. ar ôl i'ch canlyniadau gael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd).

Bydd gennych hyd at **3 mis** ar ôl i hysbysiad o benderfyniad y Bwrdd Arholi perthnasol gael ei gyhoeddi ar y fewnrwyd i gyflwyno'ch cais (oni bai fod rheswm cadarn dros gyflwyno'ch apêl ar ôl y cyfnod o 3 mis).

Pan fyddwn yn derbyn eich apêl, byddwn yn ceisio rhoi amserlen realistig i chi ar yr adeg honno ac yn rhoi gwybod i chi os bydd angen newid yr amserlen honno.

# Sut fydd fy apêl yn cael ei phrosesu?

Pan fydd eich apêl wedi'i derbyn, bydd staff sydd â'r hyfforddiant a'r profiad priodol o'r Gwasanaethau Addysg yn ystyried eich apêl. Gallant benderfynu:

- ysgrifennu atoch er mwyn gofyn am ragor o wybodaeth.
- cymeradwyo'ch apêl a rhoi canlyniad academaidd priodol i chi neu
- cyfeirio'r mater i Banel Apeliadau Academaidd.

Os caiff eich Apêl Academaidd ei gyfeirio at sylw Panel Apeliadau Academaidd, gall yr aelodau benderfynu:

- ysgrifennu atoch er mwyn gofyn am ragor o wybodaeth;
- gwrthod eich apêl, neu;
- cymeradwyo'ch apêl a rhoi canlyniad academaidd priodol i chi.

Anfonir e-bost atoch yn eich hysbysu o ganlyniad eich apêl a'ch hawl i gyflwyno adolygiad terfynol os ydych yn anhapus â'r canlyniad.

# Beth gallaf ei wneud os ydw i’n anghytuno â chanlyniad fy apêl?

Os byddwch yn dal yn anfodlon ar ganlyniad eich Apêl, cewch gyflwyno cais am Adolygiad Terfynol drwy gwblhau a chyflwyno'r Ffurflen Cais am Adolygiad Terfynol i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg **o fewn 14 diwrnod gwaith** ar ôl dyddiad llythyr eich canlyniad. Mae’r Ffurflen hon a manylion y rhesymau dros Adolygiadau Terfynol ar gael ar-lein yn:

https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd/ymddygiad-a-chwynion/gweithdrefn-adolygiad-terfynol/

**Eleni (oherwydd y cyfnod byr rhwng cyhoeddi'r canlyniadau a dechrau'r cyfnod asesu atodol) ni fydd ceisiadau am adolygiadau terfynol yn cael eu hystyried a'u prosesu mewn pryd ar gyfer / yn ystod y cyfnod asesu atodol. Felly, os byddwch yn aflwyddiannus wrth apelio neu os nad ydych yn derbyn y canlyniad yr oeddech yn gobeithio ei gael wrth apelio, a’ch bod yn cyflwyno cais am adolygiad terfynol sy'n gofyn am ymgais atodol, ni fydd yn cael ei ystyried na'i brosesu mewn pryd ar gyfer y cyfnod asesu atodol, nac yn ystod y cyfnod hwnnw.**

Pan fydd proses yr Adolygiad Terfynol wedi'i chwblhau, bydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Addysg (neu ei enwebai) yn anfon llythyr "Cwblhau Gweithdrefnau" atoch yn cadarnhau penderfyniad terfynol y Brifysgol a bod y gweithdrefnau wedi'u cwblhau. Yna, gallwch ystyried gofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) ar gyfer Addysg Uwch) gynnal adolygiad allanol o'r ffordd yr ymdriniwyd â'ch achos. Mae rhagor o wybodaeth am Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA) ar gyfer Addysg Uwch (OIA) ar gael gan y Gwasanaethau Addysg neu ar wefan OIA: http://www.oiahe.org.uk/.

## Pa ganlyniadau sydd ar gael wrth apelio?

Mae'r ffurflen apeliadau academaidd yn cynnwys dewisiadau ynghylch y canlyniadau er mwyn i chi ddewis rhyngddynt.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cael gwared â chap ar farciau asesiadau/arholiadau atodol.
- Cael caniatâd i sefyll arholiadau/asesiadau atodol.
- Cael caniatâd i ail-wneud y flwyddyn astudio.
- Cael caniatâd i ail-wneud modiwlau a fethwyd yn ystod y sesiwn academaidd nesaf.
- Cael caniatâd i sefyll arholiadau fel ymgeisydd allanol;
- Cael caniatâd i'ch traethawd hir gael ei ail-arholi/i newid ac ailgyflwyno'ch traethawd hir;

Os bydd eich apêl yn llwyddiannus, bydd y canlyniad a bennir yn unol â'r hyn sy'n cael ei ganiatáu yn ôl y rheoliadau perthnasol ar gyfer eich rhaglen.

## Canllawiau ar gyfer cyflwyno Apeliadau ar sail Amgylchiadau Esgusodol

**Ydy'ch amgylchiadau esgusodol yn cyfateb i unrhyw un o'r amgylchiadau penodol a restrir yn adran 2.6 o'r Weithdrefn Apeliadau?**

| YDYN | NAC YDYN |
|---|---|
| **Mae angen i chi ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth i ddangos:**<br>(1) Bod amgylchiadau esgusodol gennych (gweler Polisi Amgylchiadau Esgusodol y Brifysgol am wybodaeth am yr amgylchiadau y bydd y Brifysgol yn eu derbyn fel amgylchiadau esgusodol).<br>(2) Y dyddiad neu'r cyfnod o amser y digwyddodd yr amgylchiadau esgusodol.<br>(3) Sut cafodd yr amgylchiadau esgusodol effaith niweidiol (h.y. negyddol) ar arholiadau neu waith cwrs penodol y gwnaethoch eu sefyll/cyflwyno/colli. Hefyd dylech esbonio pa | **Mae angen i chi gyflwyno'r un wybodaeth a thystiolaeth a restrir yn y blwch ar y chwith (yn 1-3), a**<br>(4) HEFYD bydd angen i chi ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth i ddangos, ar adeg eich asesiad(au) yr effeithiwyd arno/arnynt:<br>(a) Nad oeddech yn gallu penderfynu a oeddech yn ddigon iach i ymgymryd â'r asesiad(au); A/NEU<br>(b) Bod gennych reswm da dros beidio â hysbysu'ch Ysgol ar yr adeg berthnasol |

| | |
|---|---|
| arholiadau/gwaith cwrs yr effeithiwyd arno/arnynt a dyddiad yr asesiadau hyn. | (gweler Adran 2.6 o'r Weithdrefn Apeliadau am ragor o wybodaeth am hyn). |

## Pa ganlyniadau nad ydynt ar gael wrth apelio?

Dyma restr fer, nad yw'n rhestr gynhwysfawr, o'r canlyniadau **NAD** ydynt ar gael wrth apelio:

- Cynyddu marc neu ddosbarth gan ymateb i amgylchiadau esgusodol (e.e. ychwanegu marciau at asesiad/modiwl er mwyn ystyried amgylchiadau esgusodol neu wella dosbarthiad). Os bydd eich apêl ar sail amgylchiadau esgusodol yn llwyddiannus, byddwch yn cael cynnig ymgais arall ar yr asesiad/au perthnasol.
- Caniatáu i fyfyriwr symud ymlaen i'r lefel astudio nesaf ac ymgymryd ag addysgu/asesu ar gyfer modiwl/au a fethwyd yn y lefel astudio flaenorol (e.e. symud ymlaen i'r drydedd flwyddyn ar yr un pryd ag ymgymryd â modiwl/au a fethwyd yn yr ail flwyddyn) - oni bai bod rheoliadau asesu'r rhaglen yn rhoi caniatâd penodol am hyn.
- Os cawsoch benderfyniad i ail-wneud lefel, ond eich bod wedi dewis ail-wneud modiwlau a fethwyd yn unig ar gyfer marciau wedi'u capio yn ystod y sesiwn academaidd gyfredol/nesaf, ni fydd apêl yn gallu cael gwared â'r cap ar y marciau hynny.

## Beth sy'n cyfrif fel rhesymau dros Apelio?

**Rhestrir y rhesymau dros apelio yn Adran 2.4 o'r Weithdrefn Apeliadau Academaidd fel a ganlyn:**

(1)**Ni wnaeth y Bwrdd Arholi ystyried yr holl waith a oedd i'w gyflwyno, ac a gyflwynwyd yn gywir, i'w asesu.** *Cewch ddewis y rheswm hwn os ydych yn ystyried eich bod, er enghraifft, wedi cyflwyno gwaith i'ch Ysgol yn brydlon ond ni farciwyd y gwaith*.

**(2)Cafwyd tystiolaeth o wall cyfrifiadurol neu wall gweinyddol wrth wneud y penderfyniad diwedd lefel/rhan**. *Sylwch **NAD** yw'r rheswm hwn yn berthnasol mewn sefyllfa lle credwch y dylech fod wedi derbyn marc uwch na'r un a gawsoch ar gyfer asesiad/au. Byddai hynny'n golygu amau barn academaidd, nad yw'n rheswm dros apelio.*

**(3)Cafwyd tystiolaeth o ragfarn neu duedd neu asesu annigonol, heb fod o natur academaidd, gan un neu fwy o'r arholwyr.** Os ydych chi'n credu bod yr arholwr wedi dangos rhagfarn neu duedd tuag atoch, bydd angen i chi gyflwyno tystiolaeth glir er mwyn dangos hyn. Fel arfer, asesir gwaith yn ddienw ac felly ni fyddai arholwr yn gwybod eich enw wrth farcio'ch gwaith. **NI** chewch ddewis y rheswm hwn os credwch y dylech fod wedi ennill marc uwch na'r un a gawsoch ar gyfer asesiad/au. Byddai hynny'n golygu amau barn academaidd, nad yw'n rheswm dros apelio.

(4) **Cafwyd diffygion neu anghysondebau yn y modd y cynhaliwyd yr arholiad neu mewn cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu gyngor yn eu cylch sydd, oherwydd eu natur, yn peri amheuaeth resymol ynghylch a fyddai'r arholwyr wedi dod i'r un penderfyniad pe na baent wedi digwydd. Rhaid i ymgeiswyr ddarparu rheswm cadarn dros beidio â thynnu sylw ei Ysgol at y diffygion neu'r anghysondebau ar y pryd**. *Cewch ddewis y rheswm hwn os ydych yn ystyried, er enghraifft, bod problem gyda'r modd y cynhaliwyd yr arholiad, fel peidio â*

*chaniatáu'r amser cywir ar gyfer yr arholiad, neu lle rhoddwyd cyngor anghywir yn ystafell yr arholiad mewn perthynas â'r arholiad. Mae'n rhaid i chi fod â rheswm cadarn pam na wnaethoch dynnu sylw'r Ysgol i'r mater ar yr adeg pan gafwyd y broblem.*

(5)**Roedd yr arholwyr yn ymwybodol o ddiffygion neu anghysondebau yn y modd y cynhaliwyd yr arholiad neu mewn cyfarwyddiadau ysgrifenedig neu mewn cyngor yn eu cylch ond ni wnaethant roi ystyriaeth lawn i'r rhain, a gallai'r diffygion neu'r anghysonderau, ym marn yr ymgeisydd, fod wedi cael effaith niweidiol ar ei berfformiad.** *Os byddwch yn dewis y rheswm hwn, bydd angen i chi ddangos eich bod wedi hysbysu'r Ysgol am y diffyg neu'r anghysondeb ac esbonio sut, yn eich barn chi, na wnaeth yr Ysgol/Arholwyr roi ystyriaeth lawn i hyn wrth wneud y penderfyniad academaidd. Bydd angen i chi hefyd esbonio sut y cafodd y diffygion neu'r afreoleidd-dra hynny effaith andwyol ar eich perfformiad.*

*(6)* **Amgylchiadau esgusodol (yn unol â'r diffiniad yn Adran 3 y Polisi ar Amgylchiadau Esgusodol sy'n Effeithio ar Asesu) nad oedd yr Arholwyr yn ymwybodol ohonynt ac a gafodd effaith niweidiol ar berfformiad academaidd yr ymgeisydd.** *Sylwer, ceir canllawiau penodol uchod ar gyfer defnyddio'r sail hon yn ogystal ag yn y Ffurflen Cais am Apêl.*

# Beth NAD ydynt yn rhesymau dros apelio?

Materion **NAD** ydynt yn rheswm dros apelio:

- Herio barn academaidd neu broffesiynol yr Arholwyr. Mae hyn yn cynnwys eu penderfyniad i roi marc penodol i chi.

- Siom gyda chanlyniad (e.e. marc/dosbarth) lle mae'r marciau wedi eu cofnodi'n gywir, y rheoliadau asesu wedi eu dilyn yn gywir, a lle nad oes tystiolaeth o anghysondeb materol.

  - Materion sy'n destun cwyn, er enghraifft materion ynghylch goruchwylio, adborth, neu ddarparu gwasanaethau gan y Brifysgol gan gynnwys addysgu a chefnogaeth. Os ydych am godi cwyn am faterion o'r fath, gweler Gweithdrefn Gwynion y Brifysgol drwy ddilyn y ddolen iddi yma.

  - Cwestiynu cywirdeb marciau. Mae gan y Brifysgol weithdrefn ar gyfer hyn, sydd ar gael yma.

# Lle mae cael gafael ar y Weithdrefn Apeliadau Academaidd?

Mae'r weithdrefn lawn ar gael gan y Gwasanaethau Addysg neu ar-lein yn:

https://myuni.swansea.ac.uk/cy/bywyd-academaidd/apeliadau-academaidd/

Adran: Sut ydw i'n cael cymorth a chyngor ar apêl bosibl?

Mae Canolfan Cyngor a Chymorth Undeb y Myfyrwyr ar gael i gynorthwyo a chynghori myfyrwyr, yn gyfrinachol, ynghylch Apeliadau ac mae'n gweithredu fel gwasanaeth am ddim i fyfyrwyr. I drefnu apwyntiad i weld rhywun yn Undeb y Myfyrwyr gallwch chi gysylltu â'r Ganolfan Gyngor

drwy borth newydd i fyfyrwyr http://hello.swansea-union.co.uk/ lle gallwch godi tocyn a dewis y categori - Cyngor a Chymorth o'r gwymplen.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau eraill am y Weithdrefn Apeliadau, cysylltwch â'r Gwasanaethau Addysg drwy e-bostio: studentcases@swansea.ac.uk .